# Vincent Van Gogh

Mae Vincent Van Gogh yn artist adnabyddus iawn, iawn ac mae rhai o'i luniau'n enwog iawn, e.e. ei hunanbortread, *Noson o Sêr*, a'i luniau o flodau'r haul.

Roedd ei dad yn bregethwr a'i ddymuniad e ei hun, i ddechrau, oedd pregethu, ond hyd yn oed pan oedd e'n fach, roedd ganddo ddiddordeb mewn tynnu lluniau a pheintio.

Cyn mynd yn arlunydd, cafodd nifer o swyddi eraill. Bu'n gweithio mewn siop lyfrau, bu'n gwerthu darnau celf a bu'n bregethwr yng Ngwlad Belg ar un adeg. Tra oedd e yng Ngwlad Belg, dechreuodd astudio celf gan ei fod eisiau creu lluniau a fyddai'n rhoi pleser i bobl. Roedd y lluniau a greodd yn ystod y cyfnod hwn yn defnyddio lliwiau tywyll, yn enwedig brown tywyll.

Yn 1886, aeth i Baris i ymuno â'i frawd a oedd yn gweithio fel rheolwr oriel gelf. Yno, bu'n astudio celf a daeth i gyfarfod â nifer o artistiaid enwog eraill, fel Pisarro, Monet a Gauguin. Mae ei waith o'r cyfnod hwn yn oleuach na'i waith cynharaf.

O Baris, aeth i Dde Ffrainc, i Arles. Ei obaith oedd sefydlu ysgol gelf. Fodd bynnag, roedd Van Gogh yn dioddef o broblemau meddyliol, ac roedd e'n cael pyliau o ymddwyn yn wallgof. Un diwrnod, yn 1888, torrodd e ddarn bach o'i glust i ffwrdd. Aeth i ysbyty meddwl yn Saint Remy am driniaeth am gyfnod ac yno y peintiodd ei lun enwocaf, *Noson o Sêr*.

Erbyn mis Mai 1890, roedd e wedi gwella ychydig ac aeth i fyw yn Auvers-sur-Oise. Fodd bynnag, o fewn dau fis, fe laddodd ei hun, "er lles pawb". Saethodd ei hun mewn cae gwenith.

Roedd e'n artist arbennig iawn. Mewn cyfnod o 10 mlynedd, peintiodd tua 900 o baentiadau ond dim ond un ohonyn nhw gafodd ei werthu yn ystod ei fywyd. Dim ond ar ôl iddo farw y daeth yn enwog.

Mae ei luniau enwocaf yn llawn lliwiau cryf ac mae llawer ohonyn nhw'n ddramatig iawn. Heddiw, maen nhw'n werth miliynau o bunnau.

Yn seiliedig ar ffeithiau o: http://www.vangoghgallery.com